Siarter Gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae angen i ni gasglu a thrin gwybodaeth bersonol amdanoch fel y gallwn ddarparu gwasanaethau i chi. Trwy wneud hyn byddwn yn sicrhau ein bod yn gofalu am y wybodaeth honno ac yn ei chadw'n ddiogel.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol, rydym yn addo:

- sicrhau eich bod yn gwybod pam bod angen y wybodaeth honno arnom;
- gofyn am yr hyn sydd ei angen yn unig, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth sy'n amherthnasol;
- diogelu'r wybodaeth a sicrhau na fydd unrhyw un nad oes ganddynt hawl yn gweld y wybodaeth;
- eich hysbysu os byddwn yn rhannu'r wybodaeth â sefydliadau eraill i roi gwasanaethau cyhoeddus gwell i chi – ac a allwch ddweud na;
- sicrhau nad ydym yn cadw'r wybodaeth am gyfnod hirach nag sydd ei angen; a
- sicrhau nad yw eich gwybodaeth bersonol ar gael at ddefnydd masnachol heb eich caniatâd.

Yn gyfnewid, gofynnwn i chi:

- rhoi gwybodaeth gywir i ni; a
- ein hysbysu cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau, fel cyfeiriad newydd.

Mae hyn yn ein helpu i gadw eich gwybodaeth yn ddibynadwy ac yn gyfoes.

Gallwch gael rhagor o fanylion am:

- sut i gael gwybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch;
- sut i ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau;
- cytundebau sydd gennym â sefydliadau eraill o ran rhannu gwybodaeth ac amgylchiadau lle gallwn anfon eich gwybodaeth bersonol ymlaen heb ddweud wrthoch, er enghraifft i atal a chanfod troseddau neu i gynhyrchu ystadegau anhysbys;
- sut rydym yn sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym yn gywir ac yn gyfoes; a
- sut i wneud cwyn

drwy ddarllen DWP a'ch Gwybodaeth Bersonol (48.1KB).

Caiff ein staff eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau o ran sut i drin eich gwybodaeth bob tro maent yn defnyddio ein systemau cyfrifiadurol.

Caiff staff ganllawiau gweithdrefnol ar sut i wneud eu swyddi sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer trin eich gwybodaeth a chanllaw manwl ar ddiogelwch a chydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob un o'n contractwyr a'n cyflenwyr hefyd yn cyrraedd ein safonau diogelwch uchel wrth drin eich gwybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy fanylion cyswllt ar ein cyfleuster Darganfyddwr Gwybodaeth.

Fodd bynnag, os na allwch ddod o hyd i'r hyn rydych ei eisiau, cysylltwch â'r tîm Rhyddid Gwybodaeth. Mae manylion am sut i wneud hyn ar gael ar wefan Rhyddid Gwybodaeth DWP.

I gael cyngor annibynnol am faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 08456 30 60 60 neu 01625 54 57 45 Ffacs: 01625 524510 Gwefan: www.ico.gov.uk